# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD**

Dyddiad ac Amser

**10.30 y.b., DYDD MAWRTH, 12FED CHWEFROR, 2019**

Lleoliad

**Siambr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon LL55 1SH**

Pwynt Cyswllt

**Sion Owen**

**01286 679665**

(Dosbarthwyd 6/2/19)

# PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

**AELODAETH (15)**

## Plaid Cymru (8)

Y Cynghorwyr

Annwen Daniels
Charles Wyn Jones
Olaf Cai Larsen
Judith Mary Humphreys
Annwen Hughes
Linda Ann Jones
Catrin Wager
Edgar Wyn Owen

## Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

John Brynmor Hughes
Dewi Wyn Roberts
Eryl Jones-Williams
Anne Lloyd Jones
Hefin Underwood

## Llais Gwynedd (1)

Y Cynghorydd Anwen J. Davies

## Annibynnol Unedig Gwynedd (1)

Y Cynghorydd Dewi Owen

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N


**1. ETHOL IS-GADEIRYDD**

Ethol Is-Gadeirydd ar gyfer gweddill 2018-19.

**2. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

I dderbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**4. MATERION BRYS**

I ystyried unrhyw faterion sydd yn faterion brys ym marn y cadeirydd.

**5. COFNODION** 4 - 5

Bydd y cadeirydd yn cynnig fod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Hydref 2018 yn cael eu llofnodi yn gywir.

**6. DARPARIAETH DYSGU A DATBLYGU I AELODAU** 6 - 11

Rhoi trosolwg o'r ddarpariaeth Dysgu a Datblygu i Aelodau, gan amlygu llwyddiannau, sialensau a datblygiadau.

**7. ADRODDIADAU BLYNYDDOL AELODAU ETHOLEDIG** 12 - 16

Ystyried unrhyw addasiadau i'r adroddiadau a threfniadau eu llunio.

**8. CYFARFODYDD Y PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD** 17 - 20

Ystyried y nifer o gyfarfodydd cyffredin y Pwyllgor a gynhelir yn ystod y flwyddyn fwrdeistrefol

**9. CALENDR CYFARFODYDD Y CYNGOR 2019-20** 21 - 22

I ystyried calendr cyfarfodydd y Cyngor ar gyfer 2019-20.

# PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD 25/10/18

**YN BRESENNOL:** Dewi Owen (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:** Annwen Daniels, Annwen Hughes, John Brynmor Hughes, Anne Lloyd Jones, Charles Wyn Jones, Olaf Cai Larsen, Catrin Wager, Dewi Wyn Roberts, Hefin Underwood, Judith Mary Humphreys a Edgar Wyn Owen

**SWYDDOGION:** Vera Jones (Rheolwr Aelodau - Gwasanaeth Democrataidd), Sion Owen (Swyddog Cefnogi Aelodau)

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorwyr Dylan Bullard, Anwen J. Davies a Linda Ann Jones

**1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**2. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 26 Mehefin 2018 fel rhai cywir.

**3. YMGYNGHORIAD Y PANEL ANNIBYNNOL AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL 2019-20**

Cyflwynwyd adroddiad y Panel gan y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd. Nododd fod y penderfyniadau ar raddfeydd taliadau oedd ar gael i gynghorau unigol yn y gorffennol bellach wedi eu dileu yn dilyn adborth a dderbyniwyd gan y cynghorau. Ychwanegodd fod y Panel yn argymell cynyddu'r cyflog sylfaenol o £268 y flwyddyn (1.97%), cyflog Arweinwyr ac Aelodau Cabinet i gynyddu o £800 (gan gynnwys y £268 o gyflog sylfaenol), a chyflogau Dinesig i £22,568 ar gyfer Pennaeth Dinesig a thaliad o £17,568 ar gyfer Dirprwy Bennaeth Dinesig.

Cyfeiriodd hefyd at argymhellion y panel ynghylch Cynghorau Tref a Chymuned er mwyn rhoi cyfle i Aelodau'r Pwyllgor roi sylwadau gan fod ganddynt yn aml gysylltiad â chyngor Tref a Chymuned.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth:

- Nad oedd dewis ond derbyn yr argymhellion.
- Nad oedd Aelodau y weithrediaeth wedi derbyn codiad cyflog tu hwnt i'r codiad yn y cyflog sylfaenol ers cryn amser.
- Gresyn nad oedd elfen o amrywio taliadau yn unol â pherfformiad a phresenoldeb.
- Cefnogi gosod taliadau ar un lefel gan nad oedd posib defnyddio'r taliadau i wleidydda.
- Croesawyd gosod lefel cyflog Cadeirydd y Cyngor ar yr un lefel a Chadeirydd Pwyllgor.
- Croesawyd fod Aelodau yn cael ychydig llai o godiad cyflog na swyddogion, a chroesawyd fod hynny yn cael ei gyflwyno wedi i swyddogion dderbyn codiad.
- Nodwyd fod angen ei wneud yn eglur i gynghorau Tref a Chymuned pa aelodau sy'n gymwys am ba daliadau ac am ba gyfnod er mwyn cynorthwyo eu cynllunio ariannol.

- O ran egwyddor y dylai pob aelod etholedig gael cyflog o ryw fath er mwyn annog amrywiaeth ac adlewyrchu'r gost amser ynghlwm a bod yn Aelod Etholedig.

**Penderfynwyd:**
**1 – Derbyn argymhellion y Panel.**
**2 – Fod y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn cyfleu sylwadau'r Pwyllgor hwn i'r Panel.**

Dechreuodd y cyfarfod am 2.00 y.h. a daeth i ben am 2.35 y.h.


**CADEIRYDD**

# Eitem 6

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** |
| **DYDDIAD** | **12 Chwefror 2019** |
| **TEITL YR ADRODDIAD** | **Darpariaeth Dysgu a Datblygu i Aelodau** |
| **PWRPAS** | **Rhoi trosolwg o'r ddarpariaeth Dysgu a Datblygu i Aelodau, gan amlygu llwyddiannau, sialensau a datblygiadau** |
| **ARGYMHELLIAD** | **Gwahoddir y Pwyllgor i ystyried:**<br>**a) Camau i gyfarch y sialensau a nodwyd**<br>**b) Cynnwys y Rhaglen Hyfforddiant i Aelodau ar gyfer 2019/20 ac awgrymu teitlau ychwanegol i'w cynnwys** |
| **AWDUR** | **Carey Cartwright : Rheolwr Dysgu a Datblygu'r Sefydliad** |

1. **TROSOLWG**

1.1 Gellir ystyried hyfforddiant Aelodau fel cylchred barhaus sy'n dilyn y tymor etholiadol. Mae cyfnod anwytho 'dwys' yn syth ar ôl pob etholiad, gyda actifedd hyfforddiant yn cyrraedd uchafbwynt yn ystod blwyddyn gyntaf y tymor etholiadol. Er mwyn arfogi a chefnogi Aelodau i gyflawni rôlau newydd a gweithredu'n effeithiol, mae'r rhaglen ddatblygol yn canolbwyntio ar feysydd *allweddol/craidd* yn gyntaf, gyda dwysedd y digwyddiadau yn cymedroli dros flynyddoedd dilynol, a ffocws yn symud tuag at deitlau mwy *hunan-ddatblygol* dros amser.




1.2 Cynigir rhaglen gynhwysfawr o hyfforddiant sy'n cynnwys hyfforddiant 'traddodiadol wyneb i wyneb' ac elfennau megis gweithdai, cymhelliant (*coaching*) ac e-ddysgu. Hefyd, darperir rhaglen ar gyfer datblygu'r Arweinyddiaeth sy'n cynnwys cyfleoedd i arweinwyr (a darpar arweinwyr) fanteisio ar raglenni Rhanbarthol a Chenedlaethol yn ogystal â gweithdai wedi eu teilwrio e.e. '*5 Behaviours of a Cohesive Team'* a gomisiynwyd ar gyfer y Cabinet.

Gan ein bod bellach bron i ddwy flynedd i mewn i'r tymor etholiadol, mae ffocws y rhaglen hyfforddiant yn newid o deitlau *allweddol/craidd* (sy'n cael eu hadnabod gan Swyddogion yn bennaf) i deitlau *datblygol* gyda chyfle i Aelodau ystyried eu hanghenion dysgu a datblygu personol eu hunain a chymryd cyfrifoldeb cynyddol dros gynnwys y rhaglen.

**2. LLWYDDIANNAU**

2.1 Rydym wedi derbyn adborth positif iawn yn dilyn sesiynau megis:

- "Wedi cael budd mawr allan o'r hyfforddiant *Cyflwyniadau Effeithiol*. Wedi dysgu sut i strwythuro cyflwyniad yn broffesiynol, rhywbeth all ddod yn ddefnyddiol iawn pan yn gorfod cyflwyno mewn Pwyllgor e.e., Pwyllgor Cynllunio. Gall yr hyfforddiant yma fod yn ddefnyddiol iawn i'r holl Aelodau. Roedd o'n wych "
- "Hyfforddiant gwerthfawr iawn oedd *Delio gyda'r Wasg*. Does neb yn gwybod be all godi yn eu ward, ac felly, mae'r profiadau rwyf wedi'i cael ar y cwrs yma yn wych. Hyfforddiant sialensus dros ben ac wedi ennill sgiliau gwerthfawr."

**3. SIALENSAU**

**3.1 Presenoldeb**

Mae niferoedd mynychu yn anghyson e.e. trefnwyd hyfforddiant "*Unconscious Bias*" ar gais Aelod, ond dim ond 2 Aelod fynychodd y sesiwn cyfan. Mae rhai Aelodau wedi awgrymu y dylai pob Aelod roi pwyslais ar ddatblygu eu hunain, a gwneud mwy o ymdrech i fynychu sesiynau sy'n cael eu trefnu ar eu cyfer.

**3.2 Trefniadau**

Ymdrechir i drefnu sesiynau hyfforddiant sy'n gyfleus i Aelodau fynychu, gan arbrofi gyda opsiynau megis:

- Cynnig dewis o leoliadau gwahanol, gyda rhai yng nghanolog yn y Sir e.e, Penrhyndeudraeth
- Cynnig amryw o ddyddiadau, drwy gynnal sesiynau i niferoedd llai (a rhai sesiynau unigol)
- Defnyddio technoleg i gynnig dulliau dysgu megis Webinarau a modiwlau e-ddysgu gyda mynediad o'r cartref
- Cynnal rhai sesiynau'n hwyrach (tu allan i oriau gwaith arferol)
    - Ond serch hynny, mae'r ymateb i rai teitlau wedi bod yn siomedig e.e. pan drefnwyd sesiwn *Rhiantu Corfforaethol* ar gyfer min nos yn Ionawr (cais penodol gan Aelodau), bu'n rhaid canslo'r sesiwn gan mai dim ond 5 a gofrestrodd i fynychu.

***Gwahoddir y Pwyllgor i ystyried camau y gellid eu cymryd i gyfarch y sialensiau hyn.***

**4. RHAGLEN HYFFORDDIANT 2019/20**

4.1 Mae'r rhaglen hyfforddiant ar gyfer 2019/20 yn parhau i esblygu. (Atodiad 1). Mae'r teitlau yn y rhaglen yn seiliedig ar:-

- Awgrymiadau gan Swyddogion ac Adrannau am eu meysydd arbenigol
- Awgrymiadau gan Aelodau unigol

4.2 Fel y nodwyd eisoes, mae cyfle i Aelodau gymryd cyfrifoldeb dros eu dysgu eu hunain, ac adnabod meysydd ar gyfer datblygiad personol ynghyd â grŵpiau

- Cafwyd cais gan Aelod am hyfforddiant "Chapter 8" sy'n gymhwyster lle y gall Aelod hebrwng pobl / symud torfeydd mewn digwyddiadau cymunedol. Mae'r hyfforddiant yma'n berthnasol i rôl Aelodau a gwaith yn eu ward/cymunedau. Mae trefniadau mewn lle i Heddlu Gogledd Cymru gyflwyno sesiwn ar gyfer rheoli traffig mewn digwyddiadau.

***Gwahoddir y Pwyllgor i ystyried y rhaglen bresennol a chynnig unrhyw deitlau yr hoffent eu cynnwys.***

**5. SGYRSIAU DATBLYGOL**

5.1 Mae cyfle i Aelodau gael sgwrs ddatblygol gyfrinachol (un i un) gyda Swyddog o'r *Gwasanaeth Democratiaeth*, i adlewyrchu ar eu rôl, trafod cefnogaeth yn gyffredinol, ystyried unrhyw feysydd yr hoffent eu datblygu, ac efallai llunio *Rhaglen Ddatblygu Bersonol*. Gall hyn gynnwys amrediad o feysydd yn ogystal â dulliau/profiadau datblygol. Bydd Swyddog Datblygu Aelodau wedyn yn gweithio hefo unigolion (neu grwpiau) i drefnu cyfleoedd datblygol perthnasol.

**6. MENTORA**

6.1 Mae 12 Aelod bellach wedi eu hyfforddi i fod yn Fentoriaid. 'Rydym wedi hysbysu Aelodau eraill o hyn, a'u gwahodd i wneud cais am Fentor os ydynt yn dymuno.

**7. COFNODI DYSGU AC ADRODDIADAU**

7.1 Mae modiwl (MoDS) wedi ei greu fel rhan o'r system hunanwasanaeth ble y gall Aelodau edrych eu rhaglen ddatblygu a'u cofnod hyfforddiant (sef y dysgu maent wedi ei fynychu). Bydd hefyd yn adnodd gweinyddol ardderchog, gydag opsiynau ar gyfer creu amrediad ehangach o adroddiadau.

**8. PERFFORMIAD Y GWASANAETH DYSGU A DATBLYGU'R SEFYDLIAD**

8.1 Er mwyn asesu effaith y dysgu, gofynnwyd i Aelodau ymateb i'r cwestiwn *"Ydi'r ddarpariaeth yn eich helpu chi fel Aelod i gyflawni eich rôl yn effeithiol, er mwyn gallu rhoi gwasanaeth gwell i bobl Gwynedd?"* Derbyniwyd adborth positif iawn, gydag amrediad o sylwadau cadarnhaol ac awgrymiadau defnyddiol. Ond gan mai'r un Aelodau sy'n tueddu i fynychu hyfforddiant yn rheolaidd a rhoi adborth, rydym wedi adolygu'r dull o gasglu adborth:

- Cysylltu (galwad ffôn) gydag Aelodau sydd ddim yn mynychu hyfforddiant yn aml, i ofyn beth sy'n bwysig iddynt. Gweler sampl o ymatebion diweddar yn Atodiad 2.
  Bydd y tîm *Dysgu a Datblygu'r Sefydliad* yn ystyried camau priodol i gyfarch y sylwadau.
- Gweithio hefo'r Tîm Democratiaeth i greu un holiadur i gasglu adborth am y 'pecyn cefnogaeth' yn ei gyfanrwydd.

ATODIAD 1

# RHAGLEN DATBLYGU AELODAU ETHOLEDIG

# ELECTED MEMBERS' DEVELOPMENT PROGRAMME

**2019/20**

DYSGU a DATBLYGU



| Dyddiad ac amser / *Date and time* | | Digwyddiad / *Event* | Lleoliad / *Location* | Arweinwyr / *Leaders* |
|---|---|---|---|---|
| | | | Lleoliad / *Location* | Arweinwyr / *Leaders* |
| Mai 15 May | (10:00 – 12:30)<br>(pm) | Arwain yn Ddiogel \| Safe Leadership (I unrhyw un sydd heb fynychu \| for those who haven't attended) | Siambr HYWEL DDA Chamber, Caernarfon | Catrin Love (Rheolwr (Gwasanaethau Ymgynghorol Iechyd, Diogelwch a Llesiant \| Health, Safety and Well-being Advisory Services Manager) |
| Mai 17 May | (10:00 – 13:00) | Gofalu am ein Hamgylchedd \| Caring for our Environment (I unrhyw un sydd heb fynychu \| For those who haven't attended) | Ystafell PRYSOR Room, Penrhyndeudraeth | Dafydd Meurig + Angela Russell |
| Mehefin 26 June | (am)<br>(pm) | | | |
| Medi 18 September | (am)<br>(pm) | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Tachwedd 27 November (am)<br><br>(pm) | | | |
| Ionawr 8 January (am)<br><br>(pm) | | | |
| Chwefror 12 February (am)<br><br>(pm) | | | |
| Mawrth 18 March (am)<br><br>(pm) | | | |



Dyddiadau ychwanegol yn y Calendr / Additional dates in the Calendar

**ATODIAD 2**

Dyma esiamplau o sylwadau diweddar gan Aelodau:-

- *“Dwi ond yn mynychu teitlau sydd o ddiddordeb imi”*
- *“Mae gormod o hyfforddiant”*
- *“Wrth gwrs rwy’n mynd i’r hyfforddiant Cynllunio oherwydd mae'r rheini yn orfodol ac mae gennyf ddiddordeb yn y pwnc gan fy mod yn Aelod ar y Pwyllgor”*
- *“Dwi yn meddwl bod rhai eraill yn bwysig, Gofal Plant/Henoed etc., fodd bynnag, mae gennyf gysylltiadau sy’n arbenigo yn llawer iawn o feysydd - a dwi’n cael unrhyw wybodaeth dwi angen trwy’r ffynonellau hynny”*
- *“Rhwng gweithio o ddydd i ddydd a’r holl Bwyllgorau, dwi’n gorfod blaenoriaethu pethau”*
- *“Mae’n well weithiau, cael rhai Aelodau sy’n arbenigo mewn rhai meysydd, yn lle bod Aelodau yn trio cael gwybodaeth am bob dim”*
- *“Mae’r teitlau rydych yn eu cynnig yn cyfro bob dim rydym ei angen fel Aelodau a gallaf ond canmol hynny”*
- *“Rhwystr mawr sydd gen i yw fy mod yn gorfod cymryd ‘gwyliau di dâl’ ar gyfer Pwyllgorau a hyfforddiant sy’n disgyn ar fy amser gwaith, ac felly gall mynychu digwyddiadau fod yn gostus imi. Ar ben hyn, mae hi’n anodd iawn cael amser i ffwrdd. Bydda’i digwyddiadau hwyrach yn y p’nawniau yn gweithio’n olew imi).”*
- *“Os yw Aelodau methu mynychu digwyddiadau, eu bod yn cael copi o’r deunyddiau ar e-bost ar ôl y digwyddiad, fel bod nhw’n medru gweld y cyflwyniad.”*
- *“unrhyw faes dwi’n angen help efo, dwi’n medru cael y wybodaeth dros y ffôn/e-bost/y wê a dwi ddim yn teimlo bod angen Rheolwyr/swyddogion i roi gwybodaeth imi.”*
- *“Yn fy oed i, dwni ddim faint mwy o ‘ddatblygu’ sydd angen imi wneud felly dwi ddim yn credu ei fod o’n bwysig imi erbyn hyn.”*

# Eitem 7

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd |
| **DYDDIAD** | 12 Chwefror 2019 |
| **PWNC** | Adroddiadau Blynyddol Aelodau Etholedig |
| **PWRPAS** | Ystyried unrhyw addasiadau i'r adroddiadau a threfniadau eu llunio. |
| **AWDUR** | Vera Jones<br>Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd |

**1. CEFNDIR**

1.1 Mae'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd eisoes yn ymwybodol fod Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn nodi:

Rhaid i awdurdodau lleol wneud trefniadau:

- I bob person sy'n aelod o'r awdurdod i lunio adroddiad blynyddol ynghylch gweithgareddau'r person fel aelod o'r awdurdod yn ystod y flwyddyn y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi,
- i bob person sy'n aelod o weithrediaeth yr awdurdod lunio adroddiad blynyddol ynghylch gweithgareddau'r person fel aelod o'r weithrediaeth yn ystod y flwyddyn y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi; ac
- i'r awdurdod gyhoeddi pob adroddiad blynyddol sy'n cael ei lunio gan ei aelodau a chan aelodau ei weithrediaeth.

1.2 Bwriad yr Adroddiadau Blynyddol gan yr Aelodau Etholedig yw gwella cyfathrebu rhyngddynt â'r cyhoedd. Mae'r adroddiadau yn gyfrwng i wella dealltwriaeth y cyhoedd o'r hyn y mae eu haelodau lleol yn ei wneud a'r rôl bwysig sydd ganddynt, gan alluogi'r cyhoedd i ddod o hyd i wybodaeth am weithgarwch eu cynghorydd lleol.

1.3 I atgoffa'r Aelodau, mae'r canllawiau gwreiddiol a dderbyniwyd ar gyfer llunio adroddiadau blynyddol wedi eu cynnwys yn **Atodiad A**.

1.4 Bydd aelodau'r pwyllgor yn ymwybodol fod cryn son wedi bod am yr adroddiadau blynyddol yn y papur ymgynghorol ar Fil drafft Llywodraeth Leol (Cymru) a gyhoeddwyd ar gyfer ymgynghori ar 24ain Tachwedd 2015, oedd yn crybwyll y byddai creu adroddiadau blynyddol yn dod yn fandadol.

1.5 Fodd bynnag, nid oedd son am Adroddiadau blynyddol gan aelodau etholedig yn yr ymgynghoriad diweddaraf i ddiwygio llywodraeth leol (mis Mai 2018), sef dogfen Ymgynghorol Papur Gwyrdd **"Cryfhau Llywodraeth Leol : Cyflawni dros ein Pobl."**

1.6 Felly rydym yn parhau i ddisgwyl arweiniad pellach, a bydd yn ofynnol ymateb i unrhyw ofynion pan fyddant yn glir.

## 2. ADRODDIADAU BLYNYDDOL DROS Y BLYNYDDOEDD DIWETHAF

2.1 Mae'r niferoedd adroddiadau blynyddol sydd wedi eu cyhoeddi wedi amrywio dros y blynyddoedd gyda'r nifer uchaf (39 adroddiad) yn 2014/15. Cyhoeddwyd 16 yn 17/18.

2.2 Mae ffurf yr adroddiadau hefyd wedi addasu dros y blynyddoedd, yn seiliedig ar sylwadau aelodau o'r pwyllgor hwn. Gwahoddir sylwadau pellach gan aelodau'r pwyllgor er mwyn paratoi ac addasu ar gyfer creu adroddiadau 18/19.

2.3 Yn ogystal, rydym hefyd wedi ceisio addasu ein trefniadau mewnol i hwyluso'r broses o greu'r adroddiadau. Rydym eisoes wedi adnabod trefniadau gwahanol ar gyfer y flwyddyn i ddod er mwyn sicrhau cyhoeddi'r adroddiadau yn hwylus.

2.4 Gellir gweld yr adroddiadau trwy ddilyn y ddolen isod: https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Cynghorwyr-a-phwyllgorau/Sut-maer-Cyngor-yn-gweithio/Adroddiadau-Blynyddol.aspx

## 3. AMSERLEN A CHAMAU NESAF

3.1 Un mater sydd yn creu her yn flynyddol yw amserlen. Gweler isod yr amserlen arferol sy'n cael ei chreu.

- **Erbyn diwedd Ebrill -** Bydd swyddogion y Gwasanaeth Democrataidd yn gohebu gyda holl Aelodau'r Cyngor i'w hatgoffa o'r canllawiau ynghyd â chylchredeg templed ar gyfer llunio'r adroddiad blynyddol.
- **Erbyn diwedd Mai -** Gofynnir i Aelodau gyflwyno adroddiadau drafft mewn un iaith i'r Gwasanaeth Democrataidd ar gyfer eu gwirio. Yn dilyn cytuno ar y fersiwn derfynol bydd y Gwasanaeth yn trefnu cyfieithiad o'r adroddiad blynyddol.
- **Erbyn diwedd Gorffennaf** – Cwblhau a chyhoeddi'r adroddiadau blynyddol ar wefan y Cyngor.

3.2 Teg yw nodi nad ydym wedi llwyddo i gadw at yr amserlen uchod dros y blynyddoedd diwethaf.

3.3 Fodd bynnag, credaf fod angen trefniadau clir ar gyfer y gwaith, sy'n cynnwys amserlen realistig. Gofynnir i'r aelodau am eu sylwadau ar yr amserlen.

## 4. ARGYMHELLIAD:

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd:

(i) ystyried yr uchod a chynnig sylwadau ar y drefn

## ADRODDIADAU BLYNYDDOL AELODAU O AWDURDOD LLEOL

### Cyflwyniad

Mae Rhan 1 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 ("y Mesur") yn cynnwys darpariaethau a fwriadwyd i gryfhau democratiaeth leol. Mae Pennod 1 o'r Rhan honno'n ymwneud â'r gefnogaeth a roddir i aelodau o awdurdod lleol ac mae adran 5 o'r bennod honno'n cyfeirio at baratoi adroddiadau blynyddol ar gyfer yr aelodau hyn. Cyhoeddir y canllawiau statudol hyn o dan adran 5(4) o'r Mesur. Mae'r canllawiau yn ymwneud â threfniadau awdurdodau lleol i lunio adroddiadau blynyddol.

### Yr hyn sy'n ofynnol yn ôl y Mesur

Mae adran 5 yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol (awdurdodau lleol) sicrhau bod pob un o'u haelodau etholedig yn gallu llunio adroddiad blynyddol ar ei weithgareddau fel aelod o'r cyngor yn ystod y flwyddyn a aeth heibio. Mae hyn yn cynnwys galluogi unrhyw aelod o weithrediaeth y cyngor i adrodd ar ei weithgareddau fel aelod o'r weithrediaeth. Rhaid i'r cyngor dan sylw gyhoeddi unrhyw adroddiadau y bydd aelodau o gyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yn eu llunio. Gall yr awdurdod lleol bennu amodau/terfynau ar yr hyn sy'n cael ei gynnwys mewn adroddiad.

Rhaid i'r awdurdod lleol roi cyhoeddusrwydd i'w drefniadau ar gyfer cyhoeddi adroddiadau blynyddol, ac wrth wneud y trefniadau hynny, rhaid iddo roi sylw i'r canllawiau hyn.

### Canllawiau

Dyletswyddau awdurdod lleol - Rhaid i awdurdod lleol wneud trefniadau sy'n galluogi ei aelodau i lunio adroddiadau blynyddol. Mae hyn yn golygu bod rhaid iddo ddweud wrth ei aelodau sut i'w llunio ac erbyn pryd i'w llunio.

Mae'r Mesur, yn adran 8 a'r adrannau sy'n dilyn, yn nodi mai'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd sy'n cyflawni swyddogaethau gwasanaethau democrataidd, fel y'u diffinnir yn adran 9. Mae hyn yn cynnwys darpariaeth i roi cymorth a chyngor i aelodau i'w cynorthwyo i gyflawni eu swyddogaethau, ac mae trefnu proses yr adroddiadau blynyddol yn perthyn i'r categori hwn. Mae'r Mesur yn atal y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd rhag rhoi cymorth a chyngor i aelod yn ymwneud â chyflawni ei swyddogaethau gweithredol fel aelod o weithrediaeth. Er hynny, nid yw llunio adroddiad blynyddol yn swyddogaeth weithredol ynddi'i hun, hyd yn oed os yw'n cyfeirio at weithgareddau'r cynghorydd fel aelod o'r weithrediaeth.

### Cyhoeddi adroddiadau

Mater i'r awdurdod lleol yw penderfynu sut y bydd yn cyhoeddi adroddiadau blynyddol. Disgwylir i'r awdurdod gynnwys dolen i adroddiadau blynyddol yr aelodau, o leiaf, a hynny ar y rhan honno o wefan yr awdurdod sy'n dangos manylion aelodau

unigol. Nid oes disgwyl i'r awdurdod drefnu unrhyw gyhoeddusrwydd y tu hwnt i hyn, ac os yw'n penderfynu rhoi cyhoeddusrwydd pellach i'r adroddiadau, dylai ofalu ei fod yn gwneud yr un ddarpariaeth ar gyfer pob aelod. Felly, os bydd aelod yn gofyn i awdurdod roi mwy o gyhoeddusrwydd i'w adroddiad, dylid gwrthod y cais hwnnw oni bai fod mwy o gyhoeddusrwydd yn cael ei roi i adroddiad pob aelod.

Dylai awdurdodau lleol hefyd sicrhau bod eu gwefan yn cynnwys gwybodaeth ynglŷn â chyflwyno adroddiadau blynyddol a sut y gall aelodau'r cyhoedd eu gweld.

**Cynnwys yr adroddiadau**

Prif bwrpas yr adroddiadau yw galluogi aelodau'r cyhoedd i ddod o hyd i wybodaeth am weithgarwch eu cynghorydd lleol. Gall awdurdodau lleol roi eu cyfyngiadau eu hunain ar gynnwys adroddiadau. Dim ond gwybodaeth ffeithiol y dylai adroddiadau blynyddol ei chynnwys. Mae hynny'n awgrymu mai gwybodaeth am gyfarfodydd, digwyddiadau, cynadleddau ac ati a fynychwyd gan y cynghorydd y dylid ei chynnwys yn bennaf, ynghyd ag unrhyw weithgareddau hyfforddi a datblygu. Er y gallai fod yn dderbyniol cynnwys gwybodaeth fod aelod "wedi gwneud sylwadau ar ran yr ymgyrch i achub yr ysbyty lleol yn y ffyrdd canlynol", ni fyddai'n dderbyniol dweud fod aelod "wedi llwyddo i achub yr ysbyty lleol yn sgil ei ymdrechion ar ran ei etholwyr."

Yn yr un modd, dylid osgoi cynnwys gwybodaeth mewn adroddiadau yn ymwneud â gweithgareddau a gwblhaodd yr aelod y tu hwnt i'w rôl fel cynghorydd. Felly, er y byddai'n dderbyniol cynnwys gwybodaeth am araith a roddodd aelod mewn cynhadledd yr oedd yn ei mynychu yn rhinwedd ei rôl yn y cyngor, ni fyddai'n dderbyniol cyfeirio at araith a roddodd mewn cynhadledd plaid wleidyddol, er enghraifft, ac yntau yno fel cynrychiolydd cangen leol ei blaid.
Dylid gofalu hefyd nad yw'r adroddiad yn cynnwys gwybodaeth y gellid ei dehongli fel beirniadaeth o aelod arall. Er enghraifft, ni fyddai'n dderbyniol i aelod gymharu ei bresenoldeb neu ei weithgareddau â rhai aelod arall neu aelodau eraill.

Awgrymir y dylid cynnwys yr eitemau safonol canlynol:

- Rôl a chyfrifoldebau – gan gynnwys manylion aelodaeth o bwyllgorau a chyrff allanol, cofnodion presenoldeb yn y rhain ac yn y cyngor llawn.
- Gweithgarwch lleol – manylion unrhyw gymorthfeydd a gynhaliwyd a sylwadau a wnaed ar ran etholwyr, a chanlyniadau'r rhain.
- Prosiectau mawr – manylion unrhyw fentrau neu brosiectau lleol, sirol neu ranbarthol y bu'r aelod yn rhan ohonynt.
- Dysgu a datblygu – manylion digwyddiadau hyfforddi a datblygu a fynychwyd neu a ddilynwyd, a chynadleddau a seminarau a fynychwyd.


| CYFARFOD | Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd |
|---|---|
| DYDDIAD | 12fed Chwefror 2019 |
| TEITL | Cyfarfodydd Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd |
| PWRPAS | Ystyried y nifer o gyfarfodydd cyffredin y Pwyllgor a gynhelir yn ystod y flwyddyn fwrdeistrefol |
| AWDUR | Vera Jones<br>Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd |

## 1. CEFNDIR

1.1 Amcan yr adroddiad yw ystyried nifer o gyfarfodydd cyffredin y Pwyllgor a gynhelir yn ystod y flwyddyn fwrdeistrefol.

1.2 Yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, mae'n ofynnol i'r Pwyllgor gyfarfod fel isafswm o unwaith y flwyddyn, ond nid oes uchafswm wedi ei nodi. Cyfrifoldeb y Cadeirydd yw sicrhau bod cyfarfodydd yn cael eu cynnal pan fo angen.

1.3 Mae'r aelodau eisoes wedi derbyn adroddiad ynghylch hyfforddiant aelodau sy'n nodi fod cylchred barhau i hyfforddiant Aelodau sy'n dilyn y tymor etholiadol. Mae gwaith y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd hefyd yn dilyn cylchred, gydag uchafbwynt y gylchred yn y flwyddyn cyn etholiad a'r flwyddyn ar ôl etholiad, a materion yn tueddu i sefydlogi yn y cyfnod yn y canol. Gweler y darlun isod i geisio esbonio'r tuedd.




## 2. PATRWM CYFARFODYDD Y PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD YNG NGWYNEDD

2.1 Cynhaliwyd dau gyfarfod o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn 2017-18.

- 26 Hydref 2017 yn trafod 3 eitem mewn 1 awr a 50 munud
- 12fed Ebrill 2018 yn trafod 7 eitem mewn 2 awr a 45 munud.

(Gweler tabl yn Atodiad A am fwy o fanylion)

2.2 Cynhaliwyd 3 chyfarfod o’r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn 2018-19 hyd yma.

- 26 Mehefin 2018 yn trafod 4 eitem mewn 1 awr a 45 munud.
- 25 Hydref 2018 yn trafod 1 eitem mewn 35 munud.
- 12 Chwefror yn trafod 4 eitem

Mae cyfarfod nesaf y Pwyllgor wedi ei raglennu ar gyfer 9 Ebrill 2019 (ymhen 8 wythnos). (Gweler tabl yn Atodiad A am fwy o fanylion)

2.3 Mae’r patrwm yn amrywiol ar draws Cymru, ond y mwyafrif o swyddogion yn nodi fod gwaith y Pwyllgor (ac felly'r niferoedd cyfarfodydd) yn tueddu i gynyddu a chyrraedd uchafbwynt wrth baratoi at gyfnod etholiadau yn ystod cylchred tymor y Cyngor.

**3. CAMAU NESAF**

3.1 Mae lle i ystyried sawl cyfarfod sefydlog blynyddol sydd eu hangen yn y calendr pwyllgorau.

3.2 Mae cyfle i ystyried y rhaglen waith blynyddol rhag-blaen, gan raglennu cyfarfodydd i gyd-fynd â gofynion y rhaglen waith. Rhaid cofio hefyd fod nifer o ddatblygiadau ar gyfer darpariaeth i aelodau etholedig yn digwydd yn sgil is-grwpiau o’r pwyllgor, sy’n adrodd yn ôl i’r pwyllgor gydag argymhellion. Gellid parhau gyda threfniadau o’r fath. Yn ogystal, petai angen cyfarfod arbennig neu benodol yna gellir darparu ar gyfer hynny.

4. ARGYMHELLIAD

4.1 Ceisio barn y pwyllgor am amlder a nifer cyfarfodydd y pwyllgor.

**Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd - Mai 2017 – Rhagfyr 2018**

**Nifer Eitemau a Hyd y cyfarfodydd**

**TABL DATA:**

| DYDDIAD | NIFER EITEMAU | PA EITEMAU | HYD Y PWYLLGOR | HYD Y PWYLLGOR MEWN MUNUDAU |
|---|---|---|---|---|
| 12 Chwefror 2019 | 4 | Hyfforddiant Aelodau | | |
| | | Adroddiadau Blynyddol | | |
| | | Hyd pwyllgorau | | |
| | | Calendr blynyddol y Cyngor | | |
| | | | | |
| 25 Hydref 2018 | 1 | Ymgynghoriad Panel Annibynnol Cymru ar gydnabyddiaeth ariannol | 35 munud | 35 |
| | | | | |
| 26 Mehefin 2018 | 4 | Technoleg Gwybodaeth | 1 awr 45 munud | 105 |
| | | Merched mewn democratiaeth | | |
| | | Diogelwch personol i aelodau | | |
| | | Rheoliadau Diogelu Data | | |
| | | | | |
| 12 Ebrill 2018 | 7 | Technoleg Gwybodaeth | 2 awr 45 munud | 165 |
| | | Ymholiadau gan Aelodau | | |
| | | Protocol Aelod- swyddog | | |
| | | Hyfforddiant Aelodau | | |
| | | Adroddiad Blynyddol PGD | | |
| | | Cydnabyddiaeth ariannol i aelodau | | |
| | | Adroddiadau blynyddol | | |
| | | | | |
| 05 Rhagfyr 2017 | 0 | **wedi ei ganslo** | 0 | 0 |
| | | | | |
| 26 Hydref 2017 | 3 | materion yn codi gan aelodau | 1 awr 50 munud | 110 |
| | | Cyfweliadau datblygiad personol | | |
| | | Data Amrywiaeth | | |

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD** |
| **DYDDIAD** | **12 CHWEFROR 2019** |
| **TEITL YR ADRODDIAD** | **CALENDR PWYLLGORAU 2019/20** |
| **PWRPAS** | **YSTYRIED DRAFFT CALENDR PWYLLGORAU 2019/20** |
| **AWDUR** | **GERAINT OWEN**<br>**PENNAETH GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD** |

1. **CEFNDIR**

Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor i roi rhaghysbysiad o raglen dyddiadau cyfarfodydd ei bwyllgorau am y flwyddyn i ddod. Mae'r calendar drafft hwn wedi ei lunio gyda'r bwriad o geisio sicrhau fod pawb yn ymwybodol o ddyddiadau pwyllgorau rhag-blaen.

Er mwyn cynorthwyo aelodau i gyflawni eu rôl yn effeithiol, bu ymgynghori, yn unol â'r arfer ar fersiwn drafft calendr Pwyllgorau 2019/20 y Cyngor gyda Pharc Cenedlaethol Eryri er mwyn sicrhau nad oedd gwrthdaro rhwng cyfarfodydd y ddau sefydliad.

2. **CALENDR PWYLLGORAU 2019/20**

Cyflwynir trosodd galendr ar gyfer dyddiadau cyfarfodydd y Cyngor ar gyfer 2019/20. Dyma'r dyddiadau yr ydym yn rhaglennu ar hyn o bryd, **gall fod angen cyfarfodydd eraill er mwyn gweithredu busnes y Cyngor.**

3. **HYFFORDDIANT AELODAU**

Mae'n bosib y bydd rhai dyddiadau hyfforddiant yn gwrthdaro â chyfarfodydd eraill. I ddod dros yr anhawster y bydd aelodau yn methu mynychu sesiynau hyfforddiant oherwydd y broblem uchod, ceisiwyd gosod mwy nag un cynnig ar gyfer y sesiynau hyfforddiant penodol hynny.

4. **ARGYMHELLIAD**

Gofynnir i'r Pwyllgor hwn gymeradwyo'r Calendr Pwyllgorau ar gyfer ei mabwysiadau gan y Cyngor Llawn ar 7 Mawrth, 2019.

| 2019-2020 | Amser cyfarfod | Mai | Mehefin | Gorffennaf | Awst | Medi | Hydref | Tachwedd | Rhagfyr | Ionawr 2020 | Chwefror | Mawrth | Ebrill | Mai |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **CYNGOR** | **yp** | **2*** | | **11** | | | **10** | | **5** | | | **5** | | **7*** |
| Cabinet | **yp** | **7/21** | **11** | **2/23** | | **10/17/ 24** | **15** | **5/26** | **17** | **14/21/ 28** | **18** | **10/31** | **21** | |
| **Hyfforddiant Aelodau** | **yb/ yp** | **15** | **26** | | | 18 | | **27** | | **8** | **12** | **18** | | |
| Pwyllgor Craffu – Addysg ac Economi | **yb/ yp** | | **20** | | | **19** | | **21** | | **23** | | **19** | | |
| Pwyllgor Craffu - Cymunedau | **yb/ yp** | | | 4 | | 26 | | | **12** | | **6** | | **2** | |
| Pwyllgor Craffu - Gofal | **yb/ yp** | | **6** | | | **12** | | **14** | | **30** | | **26** | | |
| Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu | **yb** | | **13** | **29** | | | 17 | **28** | | | **13** | | | |
| Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd | **yb/ yp** | | **25** | | | | **3** | | | | **11** | | **9** | |
| Pwyllgor Cynllunio | **yb/ yp** | **13** | **3/24** | **15** | | **2/23** | **21** | **11** | **9** | **6/20** | **10** | **2/23** | **20** | |
| Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd | **yb/ yp** | | **14** | | | **6** | | **15** | | **24** | | **20** | | |
| Pwyllgor Trwyddedu Canolog/Cyffredinol | **yb** | | **3** | | | **2** | | | **9** | | | **16** | | |
| Pwyllgor Safonau | **yb** | | **17** | | | | | 4 | | **27** | | | | |
| CYSAG | **yp** | | **19** | | | | | **6** | | | **5** | | | |
| Pwyllgor Iaith | **yb** | | | **9** | | | | **7** | | **16** | | | **23** | |
| Cyd-Bwyllgor Ymgynghorol Lleol | **yb** | | | **5** | | | | | | | | | | |
| Pwyllgor Apelau Cyflogaeth | **yb/ yp** | **17** | **21** | **19** | | **13** | **11** | **8** | **6** | **17** | **14** | **13** | **10** | |
| Pwyllgor Pensiynau | **yp** | **23** | | **29** | | | **24** | | | **16** | | **12** | | |
| Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog | **yr hwyr** | | | | | | **9** | | | | | **11** | | |
| Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli | **yr hwyr** | | | | | | **15** | | | | | **17** | | |
| Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi | **yb** | | | | | | **1** | | | | | **3** | | |
| Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw | **yb** | | | | | | **22** | | | | | **24** | | |
| **DYDDIADAU GWYLIAU YSGOL (er gwybodaeth yn unig)** | | **6 a 27-31** | **1** | **23-31** | **1-31** | | **28-31** | **1** | **23-31** | **1-3** | **17-21** | | **6-17** | **4 a 25-29** |

*Cyfarfod Blynyddol.

Amser cyfarfod (yn ol yr angen) yb – bore yp – p'nawn yb/yp – trwy'r dydd

**Dyma'r dyddiadau yr ydym yn eu rhaglennu ar hyn o bryd, gall fod angen cyfarfodydd eraill er mwyn gweithredu busnes y Cyngor.**